

## Cofion a Llongyfarchion

Anfonwn ein cofion at bawb ohonoch yn yr Ofalaeth ac yn arbennig felly y rhai sydd heb fod yn dda eich iechyd ar hyn o bryd. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd. Cofiwn yn arbennig am Mali Elwy (Llansannan) a Doreen Evans (Llansannan), y ddwy wedi treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf. Da deall eich bod adref erbyn hyn a'ch bod yn gwella. Parhawn i gofio hefyd am Eirlys Owen (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Rhuthun, a Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari. Gobeithio bod y ddwy ohonoch chithau mewn hwyliau gweddol a'ch bod yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau mawr i Elgan ac Elen Jones (Saron) ar enedigaeth merch, chwaer fach i Anni a Ffredi. Gweddiwn drosoch fel teulu, a diolchwn i Dduw am ei ddaioni tuag atoch.

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

## Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwyllo'r oedfa a ddarlledir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru) ac ar wefan [www.holi-cymru.org](http://www.holi-cymru.org).

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 31 Ionawr 2021

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Fu'r wythnos ddiwethaf ddim yr orau os oeddech chi wedi cychwyn edrych ymlaen at yr haf! O fewn diwrnod i'w gilydd cawsom wybod na fydd yr Eisteddfod Genedlaethol na'r Sioe Fawr yn cael eu cynnal eleni. Wn i ddim os mai cyddigwyddiad oedd bod y ddau sefydliad wedi dod i'r un penderfyniad tua'r un pryd, ond roedd yn ddiddorol gweld y tebygrwydd yn y cyhoeddiadau a wnaed am y gohirio. Yn y ddau achos, mynegwyd siom na fyddai digwyddiad 2021 yn cael ei gynnal, wedi'i ddilyn gyda datganiad hyderus y bydd yr Eisteddfod a'r Sioe yn dychwelyd yn ystod haf 2022. Mae'n ymddangos felly bod y swyddogion wedi dod i gasgliadau ar sail yr hyn y maent yn ei wybod ar hyn o bryd, ac yna gobaith am yr hyn a ddaw yn y dyfodol.

Ac i raddau, dyna'r patrwm sy'n cael ei annog yn y Beibl hefyd – byw o ddydd i ddydd mewn ffydd sy'n seiliedig ar yr hyn y mae'r Arglwydd wedi ei ddweud wrthym, gan fod yn obeithiol wrth edrych ymlaen at y dyfodol.

Wrth i Gristnogion wynebu amgylchiadau amrywiol, nid yw Gair Duw yn ein cymell i anwybyddu'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, oherwydd tydi'r Arglwydd ddim yn gwneud hynny. Pan oedd pobl Dduw yn cael eu cam-drin dan gaethiwed yr Aifft, dywedodd yr Arglwydd wrth Moses: 'Yr wyf wedi gweld adfyd fy mhobl yn yr Aifft a chlywed eu gwaedd o achos eu meistri gwaith, a gwn am eu doluriau. Yr wyf wedi dod i'w gwaredu o law'r Eifftiaid...' (Exodus 3:7-8)

Felly, pan mae Cristnogion yn mynd trwy gyfnodau anodd, dylem bwysu ar y gwirionedd bod yr Arglwydd yn cofio amdanom. Ac yn ymarferol, yn y Bregeth ar y Mynydd dysgodd Crist Ei ddisgyblion sut oedd cyflwyno'r cyfan i'r Arglwydd mewn gweddi, a sut yr oeddem i beidio â phryderu ond yn hytrach dibynnu ar ein Tad nefol o ddydd i ddydd – 'Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun.' (Mathew 6:34)

Ond o ble y daw'r gobaith wrth edrych ymlaen at y dyfodol? Wrth feddwl am haf 2022, mae'r gobaith yn seiliedig ar frechlyn sy'n diogelu'r boblogaeth rhag effeithiau gwaethaf COVID 19. I'r rhai sydd â'u ffydd yn Iesu Grist, mae yna obaith hyd yn oed sicrach oherwydd parodrwydd Iesu i gymryd ein dolor a'n gwaeledd arno'i hun wrth Iddo farw am ein pechodau. Wrth ystyried y presennol a'r dyfodol,

mae geiriau'r Bugail Da am ei braidd mor dyngedfennol: 'Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt; nid ânt byth i ddistryw, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw i.' (Ioan 10:28)

Rhodri

## Cyhoeddiadau'r Fro

- Sul – 31<sup>ain</sup>**
- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
  - **Oedfa FYW ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
  - **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)
- Mawrth – 2<sup>il</sup>**
- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr. Cofiwch bod angen cofrestru ymlaen llaw i gael y llyfryn. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)
- Sul – 7<sup>fed</sup>**
- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
  - **Oedfa ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 yng nghwmni Mr Gwydion Lewis. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
  - **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)
- Llun 8<sup>fed</sup>**
- **Dewch at y Bwrdd** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr – Y trydydd sesiwn mewn cyfres o astudiaethau ar Salm 23 o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0203 901 7895 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

- Mawrth – 9<sup>fed</sup>**
- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)
- Sul – 14<sup>eg</sup>**
- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
  - **Oedfa FYW ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
  - **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

## Noddi Bag Esgor

Mae hwn yn gyfnod rhyfedd ac anodd i ni gyd...ac yn anoddach fyth i rai. Mae Baby Basics Dyffryn Clwyd yn falch iawn eu bod yn gallu parhau i gefnogi mamau a theuluoedd ifanc trwy gydol y cyfnod yma. Un peth maen nhw'n ei ddarparu ydi bagiau esgor sy'n llawn pethau mae'r fam ei angen i fynd i'r ysbyty ar gyfer yr enedigaeth (coban, sliperi, pethau molchi, tywel, sanau, ayyb) – mae'r gost oddeutu £25. Eleni, maen nhw'n gofyn yn garedig tybed a fyddai rhai yn hoffi eu cefnogi trwy noddii bag esgor. Os ydych yn awyddus i noddii bag (neu ran o fag), anfonwch neges i [babybasicsdyffrynclwyd@gmail.com](mailto:babybasicsdyffrynclwyd@gmail.com) neu ffoniwch 07517 660155 i drefnu. Neu, os bydd gennych unrhyw eitemau i'w cyfrannu, gallwch fynd â nhw i Baby Basics Dyffryn Clwyd, Uned B10, Trem y Dyffryn, Dinbych LL16 5TX, neu cysylltwch â Mair ac fe wnawn drefnu i'w casglu gennych. Os byddwch yn dymuno cyfrannu'n ariannol, croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Baby Basics Dyffryn Clwyd' wedi ei ysgrifennu ar gefn y siec. Diolch am eich cefnogaeth.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (10<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.